



6.0 Cyflogi a Rheoli Pobl

Yr Ymchwiliad Disgyblu

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Ymchwiliadau
3. Camau Ymchwilio
4. Adroddiad yr Ymchwiliad

Cyflwyniad

Mae pob polisi disgyblu'n seiliedig ar yr egwyddor na fydd unrhyw gamau disgyblu'n cael eu cymryd yn erbyn unrhyw gyflogai nes bydd ymchwiliad llawn wedi'i gynnal i'r amgylchiadau. Mae'r daflen wybodaeth hon yn egluro sut i gynnal ymchwiliad disgyblu.

Dylai mudiadau hefyd gyfeirio at [ganllaw ACAS](#) ac, os nad ydynt yn siŵr pa gamau i'w cymryd, dylent ystyried a oes angen cyngor proffesiynol arnynt cyn agor ymchwiliad disgyblu.

Ymchwiliadau

Bydd y mudiad yn cynnal ymchwiliad i faterion disgyblu posibl i ganfod ffeithiau'r achos. Bydd y swyddog ymchwilio enwebedig yn cynhyrchu adroddiad sy'n cynnwys manylion am yr honiadau, y canfyddiadau, y ffeithiau perthnasol, y casgliadau a'r argymhellion.

Os yn ymarferol – **yn ddibynnol ar faint a strwythur y mudiad**, bydd pobl wahanol yn gysylltiedig â'r ymchwiliad a'r gwrandawriad disgyblu. Ni fydd cyfarfod ymchwilio ynddo'i hun yn arwain at unrhyw gamau disgyblu.

Camau Ymchwilio

1. Paratoi
2. Paratoi cwestiynau
3. Cwrdd â'r cyflogai
4. Cwrdd â'r tystion
5. Casglu tystiolaeth arall
6. Paratoi adroddiad yr ymchwiliad

1. Paratoi

Meddyliwch am eich ymchwiliad cyn dechrau; meddyliwch am yr wybodaeth fydd angen i chi ei chasglu.

- Penderfynwch ar y ffordd orau o gynnal yr ymchwiliad. Bydd hyn yn ddibynnol ar ba mor gymhleth yw'r achos
- Penderfynwch ym mha drefn y byddwch yn cwrdd â'r tystion a'r cyflogai. Cofiwch, bod modd i chi gwrdd â hwy fwy nag unwaith os bydd angen. Bydd angen cynnal cyfarfodydd ymchwilio mewn man preifat, lle na fydd dim i darfu arnoch. Cadwch nodiadau o'r prif bwyntiau sy'n cael eu codi yn y cyfarfodydd. Nid oes yn rhaid iddynt fod yn nodiadau air am air a gellir cynnwys nodiadau yn y dystiolaeth sy'n ategu eich adroddiad ymchwilio
- Cyn y cyfarfod â'r cyflogai, meddyliwch am y cwestiynau y dylech eu gofyn – [gweler adran \(2\)](#)
- Tystion – yn ddibynnol ar natur yr achos mi allwch:
 - Ofyn i dystion am ddatganiad ysgrifenedig (gweler isod)
 - Cwrdd â thystion ac ysgrifennu eich nodiadau
 - Cwrdd â thystion ond gofyn iddynt baratoi datganiad cyn y cyfarfod

2. Paratoi Cwestiynau

Mae'n bwysig eich bod yn paratoi cwestiynau cyn cwrdd â'r cyflogai ac unrhyw dystion. Meddyliwch am yr honiadau sydd wedi'u gwneud a'r ffeithiau sydd angen i chi eu casglu.

Gall cwestiynau gynnwys rhai o'r canlynol:

(bydd y dewis o gwestiynau'n dibynnu ar destun yr ymchwiliad)

- Beth welsoch chi?
- Beth glywsoch chi?
- A oes unrhyw gofnodion sy'n cadarnhau/gwrthbrofi'r honiadau?
- Ble oeddech chi'n sefyll/eistedd?
- Sut wnaethoch chi ymateb?
- Beth wnaeth i chi ymateb yn y ffordd honno?

Dylai datganiad tystion gynnwys y canlynol:

- Enw a theitl swydd y sawl sy'n gwneud y datganiad
- Manylion am ddyddiad, lleoliad ac amser y digwyddiad rydych yn ymchwilio iddo
- Cadarnhad o enw a theitl swyddi pawb oedd yn bresennol
- Y rheswm pam mae'r tyst yn gallu gwneud sylw ar y digwyddiad
- Y lleoliad o ble roedd y tyst yn gallu gweld y digwyddiad
- Manylion llawn am yr hyn a dystiwyd, trefn y digwyddiadau, enwau'r bobl eraill oedd yn bresennol, ffeithiau
- Braslun neu gynllun, os yn briodol
- Dyddiad, amser a'r lleoliad lle gwnaed y datganiad
- Llofnod y tyst

3. Cwrdd â'r cyflogai

Dylid rhoi rhybudd i'r cyflogai o'r bwriad i gynnal cyfarfod er mwyn iddo gael amser i baratoi. Pan fyddwch yn cwrdd â'r cyflogai sy'n destun yr honiadau, dylech ei atgoffa o'i hawl i ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef i'r cyfarfod.

Dylech sicrhau bod y cyflogai'n deall yr honiadau sydd wedi'u gwneud. Gofynnwch iddo ymateb i'r honiadau hyn a chynhyrchu tystiolaeth i ategu ei ymateb. Defnyddiwch gwestiynau agored a threiddgar i gael gwybodaeth ac eglurwch y materion dan sylw. Gwiriwch eich bod wedi deall yr hyn sydd wedi cael ei ddweud.

4. Cwrdd â Thystion

Efallai y byddwch yn penderfynu nad oes angen cyfweld pob tyst, ac mai dim ond datganiad ysgrifenedig, wedi'i ddyddio a'i lofnodi sydd ei angen. Pan fydd tyst yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig, bydd yn rhaid i chi fodloni eich hun eich bod wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac nad oes dim cwestiynau heb eu hateb. Os nad ydych yn fodlon mi allwch gyfweld y tystion.

Efallai y byddwch yn penderfynu bod angen i chi gwrdd â thyst i gael ei ddatganiad tyst. Gallech ofyn i dystion ysgrifennu datganiad cyn y cyfarfod neu ateb cwestiynau yn ystod y sesiwn i gasglu'r dystiolaeth.

Gall datganiadau tystion gael eu hysgrifennu hefyd gan y swyddog ymchwilio a'u llofnodi wedyn gan y tyst fel cofnod cywir.

Pan fyddwch yn cwrdd â thystion, gofynnwch iddynt egluro beth ddigwyddodd, neu os ydych wedi gofyn am ddatganiad ysgrifenedig ymlaen llaw, gofynnwch iddynt am eglurhad a rhagor o wybodaeth am y pwyntiau a wnaed ganddynt. Defnyddiwch gwestiynau agored a threiddgar i gael gwybodaeth ac eglurwch y materion dan sylw. Gwiriwch eich bod wedi deall yr hyn sydd wedi cael ei ddweud. Peidiwch ag arwain y tystion ond ceisiwch eu hannog i ganolbwyntio ar y prif ffeithiau.

Dywedwch wrth dystion y gall y cyflogai a'r panel disgyblu, os bydd yr ymchwiliad yn arwain at wrandawriad disgyblu, weld eu datganiadau a'u hymateb i gwestiynau. Dylai tystion sylweddoli hefyd y gellir galw arnynt i roi tystiolaeth mewn gwrandawriad disgyblu.

5. Casglu Tystiolaeth Arall

Cofiwch chwilio am dystiolaeth ategol i gadarnhau gwybodaeth a roddwyd gan dystion a'r cyflogai. Gallwch gynnwys copïau o'r dystiolaeth hon mewn atodiad i adroddiad yr ymchwiliad.

Efallai y bydd angen i chi edrych ar ddogfennau eraill. Bydd y dogfennau perthnasol yn dibynnu ar natur yr achos – **gallai enghreifftiau gynnwys adroddiadau presenoldeb ac absenoldeb, adroddiadau ar ddigwyddiadau, cofnodion cyfarfodydd, negeseuon e-bost neu gofnodion hyfforddiant.**

Edrychwch ar unrhyw amgylchiadau eraill y dylid eu hystyried.

6. Paratoi Adroddiad yr Ymchwiliad

Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd angen i chi ysgrifennu adroddiad, i'w gynnwys â'r ddogfennaeth mewn unrhyw wrandawriad disgyblu a all gael ei gynnal. Bydd adroddiad yr ymchwiliad yn cynnwys y dystiolaeth y byddwch yn ei chyflwyno yn y gwrandawriad disgyblu. Dylai eich adroddiad fod yn eglur, yn gryno ac wedi'i gyflwyno mewn ffurf resymegol sy'n gwneud synnwyr i rywun nad yw'n gyfarwydd â'r achos.

Dylai:

- Nodi'r honiadau
- Cynnwys dystiolaeth ategol lawn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol fel y bydd yn gwneud synnwyr i rywun nad yw'n gyfarwydd â'r achos
- Cynnwys crynodeb o'r digwyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth eich ymchwiliad, gan gyfeirio at dystiolaeth ategol yn yr atodiadau, os yn berthnasol
- Gwneud argymhellion – yn seiliedig ar ganfyddiadau eich ymchwiliad gallwch argymhell:
 - Nad oes achos i'w ateb
 - Yr ymdrinnir â'r mater yn anffurfiol
 - Bod yr achos yn mynd ymlaen i wrandawriad disgyblu

Awgrymiadau ar Gynnwys Adroddiad yr Ymchwiliad

1. Cyflwyniad

Gwybodaeth gefndirol sy'n ymwneud â'r cyflogai:

- Enw a theitl swydd y cyflogai
- Hyd gwasanaeth ac oriau gweithio
- Manylion unrhyw gamymddwyn perthnasol – ni ellir crybwyll rhybuddion blaenorol oni bai eu bod yn dal yn fyw ar yr adeg pan ddigwyddodd y camymddwyn honedig

Gwybodaeth gefndirol am y gweithle, fel:

- Amgylchedd
- Lefelau staffio
- Mathau o gleientiaid
- Llwyth gwaith a phatrwm sifftiau

2. Honiadau

Dylai'r rhain fod yn benodol:

- Dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad(au) honedig
- Cyfeirio at y cyflogai wrth ei enw
- Manylu ar natur y camymddwyn/honiadau

3. Yr Ymchwiliad

- Pwy sydd wedi cynnal yr ymchwiliad (**Eich enw, teitl eich swydd a'ch adran**)
- Sut y daeth yr honiadau i'ch sylw
- Sut yr aethoch ati i gynnal eich ymchwiliad
- Cyfeiriwch at ddatganiadau tystion a dywedwch pam eu bod yn berthnasol
- Pa ffynonellau gwybodaeth eraill ydych chi wedi eu defnyddio

4. Datganiad Achos

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gennych, cymerwch bob honiad a chyflwynwch y digwyddiadau yn eu trefn gan groesgyfeirio at ddogfennau/ datganiadau yn yr atodiadau os yn briodol:

- Amlygwch bwyntiau allweddol yn y datganiadau
- Os yn briodol, eglurwch ddisgwyliadau'r rheolwr o'r hyn ddylai fod wedi digwydd
- Eglurwch y gweithdrefnau cywir
- Dywedwch a yw'r cyflogai wedi cael hyfforddiant, cefnogaeth a gwybodaeth ddigonol i gydymffurfio â gweithdrefnau ac i gwrdd â disgwyliadau
- Cyfeiriwch at unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol
- Ystyriwch eglurhad y cyflogai o'r hyn ddigwyddodd
- Ystyriwch unrhyw amgylchiadau esgusodol

5. Crynodeb

- Deliwch â phob honiad ar wahân.
- Crynhowch natur yr honiad.
- Pwysleisiwch unrhyw risgiau os yn gymwys (e.e. i gleientiaid, enw da, cyllid y mudiad)
- Nodwch y rhesymau pam y byddai'r camymddwyn yn annerbyniol
- Nodwch y rhesymau pam eich bod yn credu bod yr honiadau wedi'u profi neu ddim (**Gan gyfeirio'n fyr at ddatganiadau tystion, tystiolaeth ategol**)
- Argymhellwch a ddylai'r honiadau gael eu hystyried mewn gwrandawriad disgyblu



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.